



**Cyfeillion
y Ddaear
Cymru**

**Friends of
the Earth
Cymru**

Maniffesto ar gyfer

Cymru wyrddach

Manifesto for

a greener Wales



Cymru Wyrddach

Mae pedwerydd tymor Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfle ardderchog i gyflawni polisiau amgylcheddol uchelgeisiol ac i elwa o economi werdd sy'n tyfu'n gyflym.

Drwy arwain mewn datblygu cymdeithas wyrddach, gall Cymru:

- ✓ Adeiladu economi gryfach
- ✓ Creu rhagor o swyddi
- ✓ Lleihau tloedi tanwydd
- ✓ Gwella iechyd
- ✓ Cyfoethogi bywyd gwyllt

Mae angen i'r llywodraeth yng Nghymru adeiladu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni eisoes drwy sicrhau bod mynd i'r afael â newid hinsawdd wedi ei wreiddio'n gadarn yn ei holl bolisiau.

Golyga hyn ysgogi polisiau cryf ac uchelgeisiol ar wella effeithlonrwydd ynni, symud o danwydd ffosil i ffynonellau ynni adnewyddol, lleihau ein defnydd ar adnoddau ac ailgylchu cymaint â phosibl, cefnogi ffermio cynaliadwy a chorffori hawliau amgylcheddol yn y gyfraith.

Mae ein maniffesto yn amlinellu agenda realistig ar gyfer Llywodraeth newydd y Cynulliad sy'n ysbrydoli atebion i'r problemau hyn, ac yn cynnig gwledigaeth o ddyfodol cadarnhaol.

“Bydd yr arloeswyr yn y chwyldro diwydiannol newydd yn gweld arloesedd, creadigedd, buddsoddiad a thwf”

Yr Arglwydd Stern, awdurdod blaenllaw ar economeg newid hinsawdd.

A Greener Wales

The fourth term of the National Assembly for Wales offers an excellent opportunity to deliver ambitious environmental policies and to reap the benefits of the rapidly expanding green economy.

By taking a lead role in developing a greener society, Wales can:

- ✓ Build a stronger economy
- ✓ Create more jobs
- ✓ Reduce fuel poverty
- ✓ Improve health
- ✓ Enhance wildlife

The government in Wales needs to build on existing achievements by ensuring that tackling climate change is firmly at the heart of all its policies.

This means driving forward strong and ambitious policies on improving energy efficiency, switching from fossil fuel to renewable energy sources, reducing resource use and maximising recycling, supporting sustainable farming and enshrining environmental rights in law.

Our manifesto sets out a realistic agenda for the new Assembly Government that inspires solutions to these problems, and offers a vision of a positive future.

“The pioneers in the new industrial revolution will see innovation, creativity, investment and growth”

Lord Stern, a leading authority on the economics of climate change.

Newid hinsawdd

Torri nwyon tŷ gwydr gan 9 y cant y flwyddyn

Mae cofnodion tymheredd byd-eang yn cadarnhau patrwm cynhesu sylweddol, gyda'r degawd diwethaf y cynhesaf erioed i'w gofnodi.

Po hwyaf y byddwn yn oedi mewn gweithredu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, y mwyaf difrifol fydd yn rhaid i'r toriadau fod.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydnabod bod ei tharged allweddol o dorri allyriadau gan dri y cant y flwyddyn yn llai na'r hyn sydd ei angen i osgoi canlyniadau peryglus.

Mae allyriadau yng Nghymru wedi gostwng yn bennaf oherwydd ein bod wedi allforio cymaint o'n gweithgynhyrchu i wledydd fel China. Mae'n bwysig ein bod yn cymryd cyfrifoldeb am yr holl allyriadau sy'n deillio o ganlyniad i'r hyn yr ydym yn ei ddefnyddio.

Dengys tystiolaeth wyddonol bod angen toriadau gwerth 9 y cant gan wledydd diwydiannol os ydym am atal tymheredd y byd rhag codi 2°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol.

Dylai Llywodraeth newydd y Cynulliad fod yn 'arloeswr' a rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau toriadau gwerth 9 y cant y flwyddyn mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Climate change

Cutting greenhouse gases by 9 percent per year

Global temperature records confirm a significant warming trend, with the last decade the warmest on record.

The longer we delay in taking action to reduce greenhouse gas emissions, the more severe the cuts will have to be.

The Welsh Assembly Government has acknowledged that its key target of cutting emissions by three percent a year falls short of what is required to avoid dangerous consequences.

“To have even a small chance to avoid dangerous climate change demands courageous and candid political leadership”

Professor Kevin Anderson, Tyndall Centre for Climate Change Research and adviser to the Welsh Assembly Government.

Emissions in Wales have dropped mainly because we have exported so much of our manufacturing to countries like China. It is important that we take responsibility for all the emissions that arise as a result of what we consume.

Scientific evidence indicates that cuts of 9 percent are needed by industrialised countries, if we are to prevent global temperatures rising more than 2°C above pre-industrial levels.

The new Welsh Assembly Government should be a 'pioneer', and give a high priority to achieving cuts of 9 percent per year in greenhouse gas emissions.

Gwastraff ac adnoddau

Dim llosgi gwastraff

Ailgylchu 80 y cant erbyn 2020

Mae ailgylchu yng Nghymru wedi cynyddu'n fawr yn y degawd diwethaf. Mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn cyrraedd cyfraddau ailgylchu o 60 y cant - gan wneud targed Llywodraeth y Cynulliad o 70 erbyn 2025 yn hawdd rhagori arno.

Fodd bynnag, bydd llosgyddion mawr yn tansellio'r targedau hyn ac yn bygwth ein cymunedau ym Merthyr Tudful, Caerdydd, gogledd Cymru ac mewn mannau eraill.

Mae llosgi gwastraff mewn llosgyddion yn anfon y rhan fwyaf o'r carbon o wastraff i'r aer fel CO₂, yn allyru gronynnau mân iawn a all fod yn niweidiol i iechyd, ac yn creu lludw gwenwynig. Mae llosgi yn ddrwg i'r amgylchedd ac yn ddrwg i bobl.

Mae ailgylchu yn creu 10 gwaith mwy o swyddi na llosgi

Dylai Llywodraeth y Cynulliad ymwrthod â llosgi gwastraff a symud y targed ailgylchu ymlaen i 70 y cant erbyn 2015 a 80 y cant erbyn 2020, gyda phwyslais ar ddidoli ymyl y ffordd ar gyfer nwyddau ailgylchadwy.

Byddai hyn yn ein rhoi ar lwybr mwy uchelgeisiol tuag at Gymru diwastraff gwirioneddol, byddai'n creu miloedd o swyddi ac fe fyddai'n fwy cost effeithiol.

Dylid cefnogi systemau triniaeth gwastraff gweddilliol megis Triniaeth Mecanyddol a Biologol (MTB), a dylid annog canolfannau ailddefnyddio a chynlluniau

Waste and resources

No incineration of waste

Recycling 80 percent by 2020

Recycling in Wales has increased greatly in the past decade. Some local authorities are already achieving nearly 60 percent recycling rates – making the Assembly Government's target for 70 percent by 2025 easily surpassable.

But large incinerators will undermine these targets, and threaten our communities in Merthyr Tydfil, Cardiff, north Wales and elsewhere.

Burning waste in incinerators sends most of the carbon from waste into the air as CO₂, emits ultra-fine particles that can be damaging to health, and creates toxic ash. Incineration is bad for the environment and bad for people.

Recycling creates 10 times more jobs than incineration

The Assembly Government should reject incineration and bring forward the recycling target to 70 percent by 2015 and 80 percent by 2020, with an emphasis on kerb side sorting of recyclables.

This would put us on a more ambitious path to a truly zero waste Wales, create thousands more green jobs, and be more cost effective.

Alternative residual waste treatment systems such as Mechanical and Biological Treatment (MBT) should be supported, and reuse centres and 'freecycle' schemes should be encouraged across Wales.

Ynni

Holl drydan Cymru o bŵer adnewyddol

Dim niwclear newydd

Defnydd ynni yw'r un ffynhonnell fwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.

Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddangos ymrwymiad cryf i gyflenwi hyd at ddwywaith y galw presennol am drydan yng Nghymru o ffynonellau adnewyddol erbyn 2025.

Ni ddylid adeiladu gorsafoedd niwclear newydd yng Nghymru, gan y byddai'n gwyro adnoddau a sylw gwleidyddol oddi wrth yr atebion carbon isel mwy effeithiol.

Dylai Llywodraeth y Cynulliad bwyso am ddatganoli pwerau ar gyfer cynlluniau creu ynni dros 50MW, ac i ddefnyddio gwres gwastraff o osrsafoedd pŵer.

Cartrefi cynnes i bawb

Mae tai yn cynhyrchu tua un rhan o bump o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, ac 1 o bob 4 cartref yn dioddef tlodi tanwydd.

Dylai o leiaf 400,000 o gartrefi yng Nghymru gael eu hailwampio er mwyn torri eu hallyriadau carbon gan 60 y cant dros y 10 mlynedd nesaf. Byddai hyn yn lleihau biliau tanwydd, creu swyddi lleol, gwella iechyd a thorri allyriadau carbon.

Dylai deddfwriaeth newydd sicrhau safonau gofynnol ar gyfer effeithlonrwydd ynni ym mhob cartref, gan gynnwys y sector rhentu preifat - y rhan o'r stoc tai sy'n lletya'r niferoedd uchaf o'r rheiny sy'n byw mewn tlodi tanwydd.

Energy

All Wales' electricity from renewable power

No new nuclear

Energy use is the largest single source of greenhouse gas emissions in Wales.

The Assembly Government should show a strong commitment to deliver up to twice Wales' current electricity demand from renewable sources by 2025.

There should be no new nuclear build in Wales, as this would divert resources and political attention away from more effective low carbon solutions.

The Assembly Government should push for the devolution of powers for energy generation schemes over 50MW, and for the use of waste heat from powerstations.

Warm homes for all

Housing produces about a fifth of greenhouse gas emissions in Wales, and fuel poverty blights one in four households.

At least 400,000 homes in Wales should be refurbished to cut their carbon emissions by 60 percent over the next 10 years. This would reduce fuel bills, create new local jobs, improve health and cut carbon emissions.

New legislation should ensure minimum standards of energy efficiency in all homes, including the private rented sector – the part of the housing stock accommodating the largest numbers of those living in fuel poverty.

Bwyd a ffermio

Cynhyrchu bwyd cynaliadwy

Cadw Cymru yn Rhydd o GM

Arian cyhoeddus i brynu bwyd lleol

Mae cynhyrchu bwyd lleol cynaliadwy yn hanfodol i ddyfodol Cymru wledig ac ar gyfer ein sicrwydd bwyd. Gall ffermio fod o fudd i bobl a'r amgylchedd, yn creu swyddi lleol a rheoli tir yn gyfrifol.

Mae 18 y cant o allyriadau nwyon tŷ gwydr y byd yn dod o ffermio cig a chynnyrch llaeth. Mae cynhyrchu'r soia sydd ei angen ar gyfer bwydydd anifeiliaid mewn ffermydd ffatri yn dinistrio fforestydd glaw, tra bod dwysâd parhaus amaethyddiaeth yn gwthio ffermydd llai allan o fusnes.

Rhaid i ni sicrhau bod cynhyrchu bwyd cynaliadwy yn cael ei gefnogi yng Nghymru. Mae'n rhaid i ariannu Polisi Amaethyddol Cyffredinol (PAC) yr UE wobrwyo pori anifeiliaid yn eang a thyfu cynydau protein ar gyfer bwydydd anifeiliaid, a chefnogi ffermio'r ucheldir ac organig sy'n cael llai o effaith amgylcheddol.

Rhaid i Gymru gadw ei henw da am gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel, gwyrrdd a pharhau'n rhydd o GM. Rhaid i Lywodraeth y Cynulliad wrthwynebu ymdrechion gan y DU i wanhau hyn ar lefel EU, a diogelu cynydau a defnyddwyr rhag llygriad GM.

Erbyn diwedd tymor nesaf y Cynulliad, dylai'r holl fwyd a brynir gan y cyhoedd fod, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, wedi ei gynhyrchu'n lleol ac mewn modd cynaliadwy.

Food and farming

Sustainable food production

Keep Wales GM Free

Public funds to buy local food

Producing sustainable local food is essential for the future of rural Wales and for our food security. Farming can benefit people and the environment, creating local jobs and managing land responsibly.

But 18 percent of the world's greenhouse gas emissions come from meat and dairy farming. Producing the soya needed for animal feed in factory farms is destroying rainforests, while continued intensification of agriculture is pushing smaller farms out of business.

We must ensure that sustainable food production is supported in Wales. EU Common Agriculture Policy (CAP) funding must reward extensive grazing of animals and the growing of protein crops for animal feed, and support upland and organic farming which has less environmental impact.

Wales must retain its reputation for high-quality, green food production and remain GM free. The Assembly Government must oppose attempts by the UK to weaken this at an EU level, and protect crops and consumers from GM contamination.

By the end of the next Assembly term, all food bought by the public sector should, whenever possible, be produced locally and in a sustainable manner.

Hawliau amgylcheddol

Cyfraith Hawliau Amgylcheddol

Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio'i phwerau llunio deddfau i gyflwyno Cyfraith Hawliau Amgylcheddol. By ddai hyn yn creu'r hawl i fyw mewn amgylchedd iach, a'i ddiogelu er lles cenedlaethau'r dyfodol.

Gan y byddai hyn yn hawl, yn hytrach na dyletswydd, byddai'n galluogi'r rheiny sy'n honni bod yr hawl hwn yn cael ei dorri i fynd i'r llys i'w orfodi.

Mae'n nod eisoes gan Lywodraeth y Cynulliad i gael datblygu cynaliadwy fel ei egwyddor trefniadol canolog. Eto, o'i archwilio'n fanylach, nid yw ei dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn ddim mwy na gofyniad i ddatgan sut mae gweinidogion yn bwriadu gwneud hyn.

“Mae gwarchod a gwella'r amgylchedd dynol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol wedi dod yn nod hollbwysig i'r ddyfnoliaeth.”

Datganiad Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd Dynol (Stockholm, 1972)

Mae angen rhoi diogelu a gwella amgylchedd Cymru ar sylfaen gyfreithiol gadarnach na hyn. Mae nifer o wledydd Ewrop wedi cynnwys yr hawl i amgylchedd o ansawdd da yn eu cyfansoddiad.

Ni allwn mwyach fforddio'r costau i'n heconomi ac i ansawdd ein bywyd a ddaw yn sgil amgylchedd diraddiedig.

Environmental rights

Environmental Rights Law

The Assembly Government should use its law-making powers to introduce an Environmental Rights Law. This would establish the right to live in a healthy environment, and protect it for the benefit of future generations.

As this would be a right rather than a duty, it would enable those alleging violation of a right to go to court to enforce it.

The Assembly Government already aims to have sustainable development as its centrally organising principle. Yet on closer examination, its duty to promote sustainable development is no more than a requirement to state how ministers propose to do so.

“To defend and improve the human environment for present and future generations has become an imperative goal for mankind.”






Declaration of the UN Conference on the Human Environment (Stockholm, 1972)

The protection and enhancement of Wales' environment need to be placed on a stronger legal footing than this. A number of European countries have built into their constitution the right to a good quality environment.

We can no longer afford the costs to the economy and our quality of life which arise from a degraded environment.

Gwella bywydau pobl drwy ysbrydoli atebion i broblemau amgylcheddol

Cyfeillion y Ddaear Cymru:

-  yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru
-  yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol y DG
-  yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda bron i ddwy filiwn o gefnogwyr ar draws pum cyfandir a thros 75 o fudiadau cenedlaethol yn fydd eang
-  yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru
-  yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm

Making life better for people by inspiring solutions to environmental problems

Friends of the Earth Cymru:

-  is dedicated to protecting the environment and promoting a sustainable future for Wales
-  is part of the UK's most influential environmental campaigning organisation
-  is part of the most extensive environmental network in the world, with almost two million supporters across five continents and more than 75 national organisations worldwide
-  supports a unique network of local campaigning groups, working in communities throughout Wales
-  is dependent upon individuals for over 90% of its income

Cyfeillion y Ddaear Cymru
33 Oriol Arcêd y Castell, Caerdydd CF10 1BY
Ffôn: 029 20229577 | Ffacs: 02920228775
cymru@foe.co.uk | www.foecymru.co.uk
Cwmni cyf Cyfeillion y Ddaear rhif 1012357

Argraffwyd ar bapur wedi ei wneud yn llwyr
o wastraff defnyddwyr

Friends of the Earth Cymru
33 Castle Arcade Balcony, Cardiff CF10 1BY
Tel: 029 20229577 | Fax: 02920228775
cymru@foe.co.uk | www.foecymru.co.uk
Friends of the Earth Ltd co. no. 1012357

Printed on paper made from 100%
post-consumer waste